**PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A'R CEFN GWLAD - 26 HYDREF, 2006**

**CYFLWYNIAD GAN Y PENNAETH GWASANAETH CYNLLUNIO, CYNGOR SIR YNYS MÔN**

**ADRODDIAD GWAITH - CYNLLUN DATBLYGU LLEOL YNYS MÔN (CDLL)**

- Stopiodd y gwaith ar Gynllun Datblygu Unedol Ynys Môn (CDU) ym mis Rhagfyr, 2005 a gofynnwyd i'r Cynulliad am ganiatâd i ddecharu gweithio ar y CDLL.
- Rhyddhawyd Gorchymyn gan y Cynulliad i ddechrau gweithio ar y CDLL ar 6 Gorffennaf, 2006, y Gorchymyn cyntaf o'r fath yng Nghymru.
- Cyflwynwyd y Cynllun Darparu ym mis Gorffennaf a chafodd ei arwyddo gan y Cynulliad ar 8 Medi, 2006.
- Cyhoeddodd y Cyngor ei Sail Tystiolaeth ym mis Medi ac mae dogfennau ar gael i'w gweld ar y rhan honno o'i wefan sy'n delio gyda'r Cynllun Datblygu Lleol. (www.ynysmon.gov.uk)
- Mae'r Cyngor yn bwriadu lansio papur ymgynghori ar Weledigaeth, Amcanion ac Opsiynau mewn cyfarfod o gydranddeiliaid ar 7 Tachwedd, 2006 gyda golwg ar gytuno ar strategaeth erbyn Mawrth 2007.
- Trefnwyd cyfarfodydd i ymgynghori gyda'r gymuned i hyrwyddo trafodaeth ar yr opsiynau a'r strategaeth.

**MATERION YN CODI O'R GWAITH A WNAED HYD YMA**

Fel cynlluniwr proffesiynol, 'rwy'n croesawu llawer o nodweddion y system Cynllun Datblygu newydd. Yn arbennig felly'r angen i ystyried gwahanol opsiynau a lleihau'r cyfnodau ymgynghori mewn perthynas â'r Cynllun Wedi'i Adneuo, yr Archwiliad o'r Cynllun ac adroddiad 'terfynol' yr Arolygydd. Mae fy Nhîm CDLL yn credu bod y cyngor yn y Llawlyfr CDLL wedi bod yn arf ymarferol ardderchog ar gyfer paratoi'r cynllun hyd yma. Wedi dweud hyn mae gennyf y pryderon a ganlyn:

**ENVIRONMENTAL, PLANNING AND COUNTRYSIDE COMMITTEE - 26 OCTOBER, 2006**

**PRESENTATION BY HEAD OF PLANNING SERVICE, YNYS MON COUNTY COUNCIL**

**PROGRESS REPORT - YNYS MON LOCAL DEVELOPMENT PLAN (LDP)**

- Work was stopped on the Ynys Mon Unitary Development Plan (UDP) in December, 2005 and a request made to the Assembly for permission to start work on the LDP.
- The Assembly granted the Order to commence work on the LDP on 6 July, 2006. The first Order of its kind in Wales.
- The Delivery Agreement was submitted in July and signed-off by the Assembly on 8 September, 2006.
- The Council published its Evidence Base in September and documentation is available on the Local Development Plan pages of its website (www.ynysmon.gov.uk).
- The Council is due to launch a consultation paper on Vision, Objectives and Options at a stakeholder meeting on 7 November, 2006 with a view to agreeing a preferred strategy by March, 2007.
- Community consultation meetings have been arranged to promote discussion on options and strategy.

**ISSUES ARISING FROM WORK TO DATE**

As a professional planner, I welcome many features of the new Development Plan system. In particular the need to consider different options and the reduction of consultation phases surrounding the Deposit Plan, the Examination of the Plan and the 'binding' Inspector's report. My LDP Team have found that the advice contained in the LDP Manual provides an excellent practical tool for preparing the plan so far. Having said this I do have the following concerns:

- Ansicrwydd ynghylch plethiad y CDLL gyda'r Cynllun Gofodol. Sefydlwyd Bwrdd Môn / Menai yr wythnos ddiwethaf dan ambarel Uned Cynllun Gofodol Môn/Eryri ac mae'n debyg y cymer perth amser i fwydo i mewn i'r adolygiad disgwyliedig o'r Cynllun Gofodol.
- Yn ogystal, mae mater sylfaenol ynghylch sicrhau cydlyniad gyda Chynllun Gofodol Môn-Eryri pan fo pob Awdurdod wedi gwneud ymrwymiad i gynlluniau darparu unigol ac felly'n gweithio i amserleni gwahanol.
- Bydd trosi "syniadau mawr" ar lefel ranbarthol yn bolisïau a chynigion CDLL yn arbennig o heriol. Efallai yn wir y bydd rhai tensiynau lleol. Mae'n hanfodol bod Gwasanaethau Cynllunio yn cael adnoddau digonol i gynorthwyo i wireddu'r weledigaeth hon.
- 'Rwy'n deall, yn unol â Datganiad Polisi Cynllunio Interim y Gweinidog 01/2006 (Tai) y dylai awdurdodau cynllunio weithio gyda chydranddeiliaid eraill i gytuno ar brosiectau tai rhanbarthol. Os oes awgrym yma y dylid gwneud hyn cyn ymgynghori ar strategaethau amgen, yna bydd angen newid yn sylweddol yr amserlen ar gyfer paratoi CDLL Ynys Môn. Fodd bynnag, ymddengys nad yw wedi cyfyngu cydweithwyr eraill rhag bwrw ymlaen gyda gwaith CDLL.
- Y "gaethwasgod" a ddarperir gan y broses statudol o wneud cynlluniau Datblygu Lleol yng nghyd-destun dyheadau gwleidyddol sy'n edrych am ymateb hyblyg yn aml. Nid mater hawdd fydd newid cyfeiriad hyd yn oed i batatoi'r Cynllun Datblygu Lleol symlach yn arbennig o gofio'r risg sylweddol o her gyfreithiol.
- Cymhlethdod rheoliadau cyfochrog, cysylltiedig (e.e. angen i gael Asesiad Amgylcheddol Strategol, Gwerthusiad Cynaliadwyaeth a Gwerthusiad Cynefin) sy'n rhoi beichiau ychwanegol ar y system gynllunio ac yn gwneud y broses yn anos i'w deall - i ymarferwyr yn ogystal â'r cydranddeliaid a'r cyhoedd.
- Hyd yma, mae gwaith wedi tueddu i ganolbwyntio ar y "broses" yn hytrach nag ar "gynllunio". Mae hyn yn newid yn awr gyda thrafodaethau ynghylch patrymau datblygu amgen ar gyfer y Sir.

- The uncertainty of the current LDP/Spatial Plan interface. The Mon/Menai Board was established last week under the umbrella of the Mon/Eryri Spatial Plan Unit and will presumably take some time to feed into the expected review of the Spatial Plan.
- In addition, there is the fundamental question of securing cohesion within the Mon-Eryri Spatial Plan area when each Authority has committed to an individual delivery agreement and are thus working to different timetables.
- The translation of "big ideas" at a regional level into LDP policies and proposals will provide particularly challenges. There may well be local tensions. It is essential that Planning Services are adequately resources to help deliver this vision.
- I understand that there is a requirement under Ministerial Interim Planning Policy Statement 01/2006 - Housing that planning authorities should work with other stakeholders to agree regional based housing projections. If the implication is that this should be done before consulting on alternative strategies, then the timetable for preparing the Ynys Mon LDP will have to be substantially revised. However it would not appear to have constrained other colleagues from processing LDP work.
- The "strait-jacket" provided by the statutory process of Local Development plan-making in the context of political aspirations which often look to a flexible response. It will be no easy matter to change direction even in preparing the simpler Local Development Plan particularly with the significant risk of legal challenge.
- The complexity of associated, parallel regulations (e.g. requirements for Strategic Environmental Assessment, a Sustainability Appraisal and a Habitat Appraisal) which throw additional burdens onto the planning system and make the process difficult to understand - for practitioners as well as stakeholders and the general public.
- To date, work has tended to be "process" focused rather than planning focused. This is now changing with discussions about alternative patterns of development for the County.

**EPC(2) 14-06(p9)**

## CASGLIAD

Mae gan y system newydd a gyflwynwyd gan Ddeddf Cynllunio a Phryniant Gorfodol 2004 rinweddau sylweddol. Mae cymhlethdodau yn codi yn yr amgylchedd sydd y tu allan i'r system gwneud cynlluniau statudol ond sy'n rhan annatod ohoni. Mae'r rhain yn canoli ar y berthynas gyda chanllawiau strategol newydd, y cydgysylltiad gyda CDLL eraill a diffyg hyblygrwydd a chymhlethdod y broses statudol.

## CONCLUSION

There is considerable merit in the new system introduced by the Planning and Compulsory Purchase Act, 2004. Complications arise in the environment external to, but integral with, the statutory plan-making system. These are centred on the relationship with emerging strategic guidance, the co-ordination with other LDPs and the inflexibility and complexity of statutory processes.

## ARGYMHELLION

1. Dylai'r Cynulliad fod yn arwain o ran cydgysylltu'r gweithgareddau gwneud-cynlluniau a dod â'r amryfal ddiddordebau at ei gilydd.

2. Dylid cydnabod pwysigrwydd sylfaenol y system gynllunio ar gyfer gwireddu'r weledigaeth ar gyfer Môn / Eryri a dylid sicrhau bod adnoddau digonol ar gyfer hynny.

## RECOMMENDATIONS

1. The Assembly should be taking the lead in co-ordinating plan-making activity and bringing the various interests together.

2. There should be recognition of the fundamental importance of the planning system in delivering the vision for Mon/Eryri and this should be adequately resourced.

Jim Woodcock - Pennaeth y Gwasanaeth Cynllunio
Cyngor Sir Ynys Môn
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

**Rhif Ffôn : 01248 752402**
**Rhif Facs: 01248 752412**
**E-bost : jwxpl@ynysmon.gov.uk**

Jim Woodcock - Head of Planning Service
Ynys Mon County Council
Llangefni
Anglesey
LL77 7TW

**Tel No: 01248 752402**
**Fax No: 01248 752412**
**E-mail: jwxpl@anglesey.gov.uk**